




**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru**  
**Natural  
Resources  
Wales**

# Canllawiau cynllun atal a lliniaru tân - Gwastraff



Cytunwyd ar y canllawiau hyn yn dilyn trafodaeth gyda'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Mae'r ddogfen yn cynrychioli'r safonau priodol gofynnol y mae'n rhaid i weithredwyr gwastraff eu rhoi yn eu lle er mwyn sicrhau bod tanau'n cael eu hatal. Caiff y canllawiau eu defnyddio gan y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru a Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau bod cyfleusterau gwastraff yn bodloni'r safonau angenrheidiol.

Mae'r canllawiau hyn yn disodli canllawiau blaenorol – Lleihau perygl tân ar safleoedd sy'n storio deunyddiau llosgadwy: Nodyn Cyfarwyddyd Technegol (TGN7.01)

**Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i bob trwydded gwastraff newydd (rheolau safonol ac arbennig perthnasol) a'r holl drwyddedau gwastraff rheolau safonol ac arbennig, ar gyfer eu cyflwyno fesul cam.**

**Nid oes raid ichi gyflwyno cynllun atal a lliniaru tân gyda'ch cais os ydych eisiau gweithredu dan drwydded rheolau safonol. Ond rhaid ichi gael un yn ei le cyn ichi ddechrau gweithredu ar y safle, a gallu dangos hynny inni. Os ydych yn gwneud cais i weithredu dan drwydded gwastraff arbennig a'ch bod yn bwriadu derbyn, storio a/neu drin unrhyw un o'r deunyddiau y mae'r canllawiau hyn yn berthnasol iddynt, rhaid ichi gyflwyno cynllun atal a lliniaru tân gyda'ch cais. Os ydych yn weithredwr sydd eisoes dan drwydded arbennig, bydd angen ichi hefyd gyflwyno cynllun atal a lliniaru tân gydag unrhyw gais i ychwanegu neu gynyddu terfynau ar gyfer deunyddiau y mae'r canllawiau hyn yn berthnasol iddynt.**

Cyfoeth Naturiol Cymru  
29 Heol Casnewydd,  
Caerdydd  
CF24 0TP  
E-bost: [enquiries@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:enquiries@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

Mae rhagor o gopiâu o'r adroddiad hwn  
ar gael oddi ar ein gwefan:  
[www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

neu drwy ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid:  
0300 065 3000

E-bost: [enquiries@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:enquiries@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

# Crynodeb

Rhaid ichi ddilyn y canllawiau hyn os ydych yn storio gwastraff llosgadwy ar safleoedd a ganiateir. Maent yn rhoi gwybod ichi pa safonau atal tanau y mae'n rhaid i chi eu dilyn.

Rhaid i'r safonau hyn fod yn eich cynllun gwaith neu'ch system reoli, a rhaid iddynt gael eu gweithredu ar eich safle. Os nad ydynt, gall Cyfoeth Naturiol Cymru a/neu'r Gwasanaeth Tân ac Achub gymryd camau gorfodi.

Hefyd, bydd angen ichi ddilyn y canllawiau hyn os yw eich trwydded yn dweud bod yn rhaid ichi gael cynllun atal tân, neu os oes angen ichi gyflwyno un fel rhan o'ch cais am drwydded.

Os nad ydych yn dilyn y safonau gofynnol yn y canllawiau hyn, rhaid ichi fod yn gallu cyfiawnhau'r rhesymau dros hynny. Rhaid i'r mesurau a ddilynwch fod yn gyfwerth neu'n well. Rhaid ichi gynnwys asesiadau manwl er mwyn i Cyfoeth Naturiol Cymru gael ei fodloni bod:

- y tebygolrwydd o dân
- yr effaith o ganlyniad i allyriadau yn ystod tân neu ar ôl tân ar bobl yr ardal, y seilwaith critigol a'r amgylchedd
- yr adnoddau sydd eu hangen ar Cyfoeth Naturiol Cymru ac ymatebwyr brys eraill yn ystod digwyddiad
- y costau glanhau ac adfer ar ôl digwyddiad

yn gyfwerth neu'n llai na'r hyn a fyddai ei angen petai'r safle'n dilyn y safonau gofynnol yn y canllawiau rheoleiddiol hyn.

Mae'r canllawiau hyn yn cymryd lle'r safonau technegol blaenorol a oedd yn arfer cael eu defnyddio yn Cyfoeth Naturiol Cymru, sef nodyn cyfarwyddyd technegol Asiantaeth yr Amgylchedd 'TGN 7.01: lleihau perygl tân ar safleoedd sy'n storio gwastraff llosgadwy.'

Nid yw'r canllawiau'n cymryd lle unrhyw ofnion statudol ar gyfer safleoedd a reolir dan ddeddfau seneddol lleol, y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 neu ddeddfwriaeth berthnasol arall.

## Deunyddiau y mae'r canllawiau hyn yn berthnasol iddynt

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i bob deunydd llosgadwy, gan gynnwys (**ond heb fod yn gyfyngedig i**<sup>1</sup>):

- papur neu gardfwrdd
- plastigion
- rwber (naturiol neu synthetig, gan gynnwys teiars cyfan, teiars wedi'u bwndelu, teiars yn stribedi mân, briwsion a ffibrau)
- pren a chyfansawdd pren
- gwastraff peiriannau darnio (o ganlyniad i brosesu cerbydau ar ddiwedd eu hoes, plastigion a gwastraff metel o gyfleusterau adfer deunyddiau)

---

<sup>1</sup> Mae'n bosibl y bydd yna wastraff arall y bydd yn rhaid i weithredwr eu hystyried ac a fydd yn gymysgedd o'r gwastraff a nodir uchod, neu pryd mae priodweddau penodol y llif gwastraff yn risg llosgadwy.

- carpiâu a thecstilau
- metelau sgrap
- gwastraff tanwydd – gan gynnwys gwastraff llosgadwy gweddilliol, RDF ac SRF
- gwastraff cyfarpar trydanol ac electronig, fel oergelloedd, cyfrifiaduron a setiau teledu sy'n cynnwys deunyddiau llosgadwy fel plastigion
- compost a deunydd planhigion
- biomas

## Deunyddiau nad yw'r canllawiau hyn yn berthnasol iddynt

Nid yw'r canllawiau hyn yn berthnasol i safleoedd tirlenwi nac i storio glo, deunyddiau na gwastraff sy'n:

- llosgadwy (fflachbwynt sy'n 60°C neu'n is)
- hylifau neu nwyon llosgadwy
- peryglus (ac eithrio unrhyw wastraff peryglus y mae'r canllawiau hyn yn berthnasol iddynt, fel y nodir uchod)
- sylweddau peryglus sy'n cael eu storio dan y Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr

Nid yw silindrau nwy, aerosolau a hylifau llosgadwy yn dod dan y canllawiau hyn ond dylid eu hystyried mewn cynllun atal tân oherwydd bod ganddynt y posibilrwydd o achosi neu gynyddu effaith tân ar safle.

I gael cyngor am ddeunyddiau a gweithgareddau nad ydynt yn y rhestr uchod, cysylltwch â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), y Gwasanaeth Tân ac Achub lleol neu Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Beth sy'n achosi tanau?

Dyma rai pethau sy'n gallu achosi tanau ar eich safle:

- llosgi bwriadol neu fandaliaeth
- ymlosgiad (e.e. oherwydd ocsideiddiad cemegol)
- peiriannau neu gyfarpar yn methu
- namau trydanol
- fflamau noeth
- pethau ysmegu wedi cael eu taflu
- gwaith poeth (e.e. weldio neu dorri)
- gwresogyddion diwydiannol
- pibellau ecsôst poeth
- llosgi yn yr awyr agored (ar y safle neu ar safleoedd gerllaw)
- ceblau trydan sydd wedi'u difrodi neu sy'n noeth
- adweithiau rhwng deunyddiau anghydnavs
- gweithgareddau ar safleoedd cyfagos
- gwreichion o fwcedi llwytho

- gwastraff anghydawns
- llwythi poeth wedi'u gadael ar y safle

## Cynllun atal a lliniaru tanau

Rhaid ichi wneud popeth rhesymol i atal tân ond ni ellir cael gwared ar bob risg. Mae eich cynllun atal a lliniaru tanau (FPMP) yn rhan o'ch system ysgrifenedig i reoli'r amgylchedd, sy'n cynnwys asesu perygl tân ar eich safle a'r mesurau sydd yn eu lle i atal, canfod, llethu, lliniaru a rhwystro tanau rhag lledu. Bydd llawer o'r mesurau ataliol yn cyd-fynd â mesurau i sicrhau bod maint y gwastraff o fewn capasiti'r safleoedd a bod y gwastraff yn cael ei storio a'i reoli'n briodol.

Rhaid i'r holl staff a chontractwyr sy'n gweithio ar y safle fod yn ymwybodol a deall cynnwys y cynllun atal a lliniaru tanau, a'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud yn ystod tân. Gall unrhyw ofynion cynnal a chadw, e.e. weldio, olygu ei bod yn ofynnol ichi newid am y tro y modd yr ydych yn rheoli perygl tân ar y safle.

Gwnewch yn siŵr fod yr holl staff yn gwybod lle mae'r cynllun atal a lliniaru tanau yn cael ei gadw. Rhaid ichi fynd ati'n gyson i brofi pa mor dda y mae eich cynllun yn gweithio ac i wneud yn siŵr fod eich staff yn deall eu cyfrifoldebau a beth i'w wneud.

Rhaid i'r cynllun atal tân nodi:

- faint o wastraff, a'r math o wastraff, sy'n cael ei dderbyn bob dydd a sut caiff ei reoli
- cyfanswm y gwastraff a'r mathau a'r ffurfiau (e.e. heb ei brosesu, wedi'i garpio, wedi'i sglodi, mân neu wedi'i fwndelu) sy'n cael eu storio ar y safle ar unrhyw adeg
- cyfanswm yr amser y caiff pob math o wastraff ei storio ar y safle, a sut caiff ei reoli
- sut bydd pob math o wastraff yn cael ei storio
- cyfanswm cyfaint pob pentwr gwastraff mewn m<sup>3</sup>
- y lleoliad ar y safle lle caiff pob math o wastraff ei storio
- cyfanswm maint unrhyw bentwr gwastraff, gan bennu cyfanswm yr hyd, y lled a'r dyfnder
- y pellter gwahanu lleiaf (brêc rhag tân) rhwng pentyrrau gwastraff neu ardaloedd storio
- y technegau atal tân a ddefnyddir, gan gynnwys rheoli manau poeth (arwyddion o ymloggi posibl), monitro, adrodd, cofnodi a chamau gweithredu
- y technegau a ddefnyddir i leihau'r risg y bydd tân yn lledu o fewn y safle neu oddi ar y safle
- y camau a'r gweithdrefnau i'w dilyn os bydd tân ar eich safle
- yr holl gynnyrch ac allyriadau (i'r aer, y tir a dŵr) o'r tân a'r ymateb brys (gan gynnwys yr effaith ar bobl, y seilwaith critigol a'r amgylchedd), a sut cânt eu lleihau cymaint â phosibl
- sut i sicrhau bod mynediad diogel ar gael i'r safle i'r gwasanaethau tân ac achub ac ymatebwyr brys eraill
- cynllun o'r safle i ddangos:
  - cynllun yr adeiladau
  - unrhyw ardaloedd lle mae deunyddiau peryglus yn cael eu storio ar y safle (lleoliad silindrau nwy, ardaloedd prosesu, cemegau, pentyrrau o ddeunyddiau llosgadwy, tanciau olew a thanwydd)
  - y prif lwybrau mynediad i injanau tân ac unrhyw fynediad arall
  - pwyntiau mynediad o amgylch perimedr y safle ar gyfer diffodd tanau
  - hydrantau a chyflenwadau dŵr

- unrhyw gwrs dŵr, tyllau turio neu ffynnon sydd ar y safle neu gerllaw
- ardaloedd o dir naturiol neu heb ei drin
- lleoliad peiriannau, dillad amddiffyn a chyfarpar a deunyddiau rheoli llygredd
- systemau draenio, draeniau dŵr budr neu ddŵr wyneb, a chyfeiriad eu llif a'u gollyngfeydd
- lleoliadau gorchuddion draeniau ac unrhyw nodweddion rheoli llygredd, fel falfiau cau draeniau a systemau ynysu dŵr tân
- lleoliad pecyn gwybodaeth argyfwng "oddi ar y safle" gyda chynllun o'r safle (fel y nodir uchod)
- lleoliad y prif dderbynyddion, megis seilwaith critigol, ysgolion, ysbytai, ardaloedd preswyl, gweithleoedd, cynefinoedd gwarchoddedig ac afonydd o fewn 1km i'r safle
- rhosyn cwmpawd yn dangos y gogledd a chyfeiriad y prifwynt

Rhaid ichi hefyd ystyried:

- lleihau faint o ddŵr tân ffo a gynhyrchir – defnyddiwch chwistrellau a niwloedd yn hytrach na phibellau jet
- ailgylchu dŵr tân os nad yw'n beryglus a bod modd ei aildefnyddio
- rhoi dŵr i oeri deunyddiau sydd heb losgi a pheryglon eraill, gan ofalu peidio â gadael i'r dŵr hwn achosi, neu ychwanegu at, llygredd dŵr a/neu gynyddu llygredd aer
- gwahanu deunyddiau sydd heb losgi o'r tân gan ddefnyddio peiriannau trymion
- gwahanu deunyddiau sy'n llosgi o'r tân er mwyn eu diffodd gyda phibellau neu mewn pyllau neu danciau o ddŵr (bydd hyn yn lleihau faint o ddŵr tân a gynhyrchir)
- claddu'r tân gan ddefnyddio pridd, tywod, brics wedi'u malu a/neu gerrig mân (os oes prinder cyflenwadau dŵr a bod mwg yn bygwth pobl leol) er na ellir gwneud hyn oni bai:
  - mai prin y mae dŵr daear yn agored i berygl
  - bod gennych gytundeb gan Cyfoeth Naturiol Cymru
  - bod deunydd sydd wedi'i halogi'n cael ei symud a'i waredu'n gyfreithlon cyn gynted ag y bo'n ddiogel gwneud hynny

Er mwyn penderfynu pa un o'r opsiynau hyn, neu gyfuniadau o opsiynau, sy'n briodol rhaid ichi ystyried:

- maint a natur y peryglon amgylcheddol ar y safle, a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal arno
- y risgiau a achosir i bobl, yr amgylchedd ac eiddo
- y math o ddeunyddiau rydych yn eu storio ar y safle, y ffurf y cânt eu storio ynddynt, a faint o amser sydd ei angen i ddiffodd tân iddynt
- y cyfleusterau ynysu dŵr tân sydd ar gael
- topograffeg yr ardal, y tywydd, a'r senarios tân y gellid yn rhesymol eu disgwyl ar y safle

## Atal tanau

Mae gwneud popeth posibl i atal tân yn rhan bwysig o'ch cynllun atal tân. Rhaid ichi:

- reoli pethau a allai gynnau tân megis pibellau gwresogi, fflamau noeth, bylbiau golau, gwresogyddion, ffwrneisiau a llosgyddion
- cadw'r pethau hyn a allai losgi o leiaf 6m i ffwrdd oddi wrth bentyrrau o ddeunyddiau llosgadwy a fflamadwy, e.e. cael arwyddion i ddangos uchder gwastraff o fewn adeiladau er mwyn atal gwastraff rhag cael ei storio o fewn 6m i olau ar nenfwd.
- atgyfnerthu negeseuon atal tân gan ddefnyddio arwyddion
- sicrhau bod staff a chontractwyr yn dilyn arferion gwaith diogel wrth wneud gwaith poeth, fel weldio a thorri
- sicrhau bod pob ymwelydd yn dilyn y gweithdrefnau cywir o ran diogelwch ac atal tân
- dilyn polisi dim ysmegu neu sicrhau bod mannau ysmegu draw oddi wrth ardaloedd storio a thrin gwastraff ac oddi wrth ddeunyddiau llosgadwy
- cyflwyno rhaglen gynnal a chadw ac archwilio ar gyfer pob ardal o'r safle (gan gynnwys peiriannau'r safle) a lleihau ffibrau a phapur cymaint â phosib yn yr adeiladau ac o amgylch y safle
- sefydlu mesurau diogelu ar y safle (e.e. ffensys diogelu, larymau lladron a theledu cylch cyfyng) er mwyn atal llosgi bwriadol (dylai eich trefniadau gynnwys y tu allan i oriau gwaith arferol)
- gosod offer diffodd tân a hidlo llwch ar yr holl gerbydau ar y safle
- gosod sribedi rwber ar bob bwced llwytho er mwyn atal gwreichion pan fo'r bwced yn dod i gysylltiad â llawr caled etc.
- gweithredu trefn gwarchod tân ar ddiwedd pob shift a chofnodi'r archwiliad, y camau a gymerwyd a'r pryderon (pan fo llwch o weithrediadau prosesu'n gallu setlo ar bibellau ecsôst poeth a darnau o injan)
- gwneud yn siŵr fod pellteroedd gwahanu'n cael eu dilyn rhwng peiriannau a deunyddiau pan nad oes staff ar y safle
- darparu ardal bwrpasol ar gyfer argyfwng neu gwarantîn sy'n ddigon mawr i ymdopi â digwyddiad mawr, gydag o leiaf 10m o ardal glir o amgylch y perimedr (rhaid i hwn fod ar gael bob amser a'i nodi ar y cynllun o'ch safle)

## Ymlosgiad

Gall rhai deunyddiau ymlosgi dan rai amgylchiadau. Mae'r risg yn cynyddu pan fo deunyddiau'n cael eu storio am fwy na 3 mis.

Efallai fod gennych amodau penodol yn eich trwydded sy'n cyfyngu ar gyfanswm eich amser storio. Rhaid ichi gydymffurfio â'r terfyn hwn.

Rhaid ichi sicrhau bod unrhyw ddeunyddiau llosgadwy'n cael eu storio am lai na 6 mis. (Oni bai fod Cyfoeth Naturiol wedi cytuno'n benodol y cewch fynd y tu hwnt i'r cyfnod hwn. Eich cyfrifoldeb chi fel gweithredwr fydd profi achos cyn storio gwastraff llosgadwy am > 6 mis.

Dyma ddeunyddiau sydd mewn perygl o ymlosgi os cânt eu storio am fwy na 3 mis:

- deunydd gwyrdd, compost, pren a chynnyrch pren,
- papur a chynnyrch papur,
- gwastraff cyffredinol/cymysg gan gynnwys gwastraff gweddilliol, RDF a gwastraff mân
- teiars (cyfan neu wedi'u prosesu)
- deunyddiau llai o faint neu wedi'u graddio, naill ai wedi'u storio neu'n gymysg

- deunydd sydd heb gael tynnu peryglon posibl cyn eu pentyrru, e.e. rhwd agored (sy'n gallu cynhyrchu gwres)
- deunyddiau sydd wedi cael eu trin ac sydd heb fod yn oer cyn eu storio (gall prosesau trin gynhyrchu gwres)

Efallai y bydd angen gostwng rhai o'r cyfnodau storio yn eich cynllun os oes gofyniad arall i sicrhau cydymffurfiaeth â'r drwydded, e.e. Cynllun Rheoli Aroglau neu fesurau rheoli pla.

Os ydych yn storio deunyddiau sydd mewn perygl o ymlosgi am fwy na 3 mis, *rhaid* ichi ddangos pa fesurau ychwanegol y byddwch yn eu cymryd, gan gynnwys monitro a throï'r pentyrrau.

Gallwch atal ymlosgi os ydych yn canolbwyntio ar wahanu, ynysu, cyfyngu ar amseroedd storio a chadw deunyddiau'n oer. Rhaid ichi ddangos dull clir o gofnodi a rheoli'r modd y caiff pob gwastraff ei storio ar y safle a sicrhau bod gennych weithdrefnau cadarn ar gyfer **derbyn gwastraff** (sy'n rhan o'ch System Rheoli Amgylcheddol) er mwyn atal gwastraff anawdurdodedig rhag cael ei dderbyn, neu wastraff nad oes gan eich safle y capasiti i'w drin na'i storio.

Rhaid i opsiynau eraill ar gyfer rheoli gwastraff fod ar gael os yw eich safle yn cyrraedd ei gapasiti storio diogel (a rhaid ymgorffori'r rheini fel terfyn o fewn System Rheoli Amgylcheddol y safle)

Rhaid ichi:

- leihau ffactorau risg (e.e. cynnwys metel agored, cyfran y gwastraff 'mân', cymysgu deunyddiau a gwres a gynhyrchir wrth ei drin)
- lleihau meintiau pentyrrau (mae pentyrrau bach gyda'r gwahaniad priodol yn fwy diogel nag un pentwr mawr)
- rheoli lefelau lleithder
- dangos bod stoc yn cael ei droi'n dda ar gyfer yr holl ddeunyddiau sy'n cael eu storio, a dangos sut y bydd hyn yn cael ei fonitro a'i weithredu bob dydd
- storio deunydd yn ei ffurf fwyaf cyn ei brosesu, e.e. peidiwch â gwneud triniaethau rhagbarataol megis lleihau maint gwastraff gwyrdd oni bai eich bod yn bwriadu cyflwyno'r gwastraff i'r broses drin ar unwaith.
- monitro a rheoli tymheredd dan yr wyneb a chynnwys lleithder gyda chwiliedydd thermol neu ddyfais arall, a sicrhau bod hwn yn gallu cyrraedd pob rhan o bentwr (os yw'r deunyddiau'n cael eu storio mewn plastig lapio, rhaid ichi fod yn gallu dangos protocol samplu a phrofi er mwyn sicrhau bod nifer gynrychioliadol o bentyrrau (o leiaf 10%) yn cael eu hasesu wrth fonitro)
- troi pentyrrau fel mater o drefn
- canfod a rheoli manau poeth o fewn pentyrrau (sylwch: mae stêm yn arwydd da o hunan-wresogi)
- diffinio cyfanswm yr amser storio ar gyfer pob deunydd ar y safle, a sut y caiff hyn ei fonitro a'i reoli
- lleihau cymaint â phosibl y gwresogi allanol yn ystod tywydd poeth drwy gysgodi rhag golau haul uniongyrchol

## Canfod a llethu tanau

Os bydd tân yn cychwyn, gorau oll po gyntaf y caiff ei ganfod.

Rhaid ichi:

- ddarparu offer diffodd tân, sy'n addas ac yn symudol
- cynnal archwiliadau rheolaidd, gan gynnwys ar ddechrau ac ar ddiwedd pob diwrnod gwaith

Dylech ystyried gosod:

- systemau canfod awtomatig, megis:
  - larymau mwg a gwres, gan gynnwys chwiliedyddion tymheredd
  - system canfod fflam weladwy drwy deledu cylch cyfyng
  - canfod gwreichion, is-goch ac uwch-fioled

A

- systemau llethu tanau:
  - systemau chwistrellu dŵr (taenellu)
  - systemau chwistrellu dŵr (dilyw)
  - llenni dŵr

Bydd angen system llethu tân ar ddeunyddiau sy'n cael eu storio mewn adeilad. Rhaid i ddeunyddiau gael eu cadw o leiaf 3m yn is na lefel y chwistrellwyr.

Fel arfer, bydd y systemau hyn yn cadw tân dan reolaeth a gallent ddiffodd y tân yn gyflym ac yn ddiogel. Bydd hyn golygu llai o ddifrod i'ch safle, i'r gymuned leol ac i'r amgylchedd. Bydd y system(au) a ddewiswch yn dibynnu ar y risgiau ar eich safle. Er enghraifft, efallai na fydd rhai systemau llethu tân yn effeithiol wrth ddelio â tân sy'n anodd ei drin.

Os ydych yn storio deunyddiau wedi'u prosesu hyd at y capasiti mwyaf a amlinellir yn y canllawiau hyn, mae'n debygol y gallech gael tân anodd ei drin. Rhaid ichi osod system sy'n canfod tân yn gyflym ac sy'n cyfyngu ar ledaeniad y tân, e.e. llenni dŵr.

Ar y safleoedd mwyaf (ac yn arbennig ar safleoedd lle mae ailbroesu neu gynhyrchu pŵer yn digwydd) dylech ystyried darparu system hydrantau tân preifat gyda'r cyflenwad angenrheidiol o ddŵr.

## Ynysu a lliniaru tanau

Rhaid ichi:

- gael yr holl fesurau priodol yn eu lle i gyfyngu ar faint, hyd ac effaith tân
- cael ardal gwarantîn bwrpasol ar gael bob amser, gyda 10m o ardal glir o amgylch y perimedr er mwyn cynorthwyo i wahanu a rheoli gwastraff yn ystod digwyddiad
- lleoli pob pentwr yn briodol, gan eu dangos yn glir ar gynllun eich safle
- sicrhau bod pentyrrau o'r maint cywir ac wedi'u gwahanu'n briodol
- storio deunyddiau'n briodol o fewn adeiladau, a chadw pellteroedd gwahanu oddi wrth ddeunyddiau fflamadwy neu losgadwy ar y safle (e.e. silindrau nwy, aerosolau a thanciau tanwydd)
- dilyn y pellteroedd gwahanu priodol o'r pentwr/pentyrrau i ffin y safle neu i'r ffordd
- sicrhau bod niferoedd a meintiau pentyrrau'n cael eu cadw mor fach â phosibl, a gwneud y mwyaf o drwybwn er mwyn cadw meintiau pentyrrau'n is na'r meintiau a argymhellir

- cynnwys strategaeth diffodd tân o fewn y cynllun atal tân
- gosod cyfleusterau ynysu eilaidd a thrydyddol ar gyfer dŵr tân ffo, megis:
  - byndiau nad oes modd eu croesi
  - morlynnoedd storio
  - falfiau cau
  - tanciau ynysu
  - ardaloedd addasedig ar eich safle, e.e. maes parcio
  - cyfarpar rheoli llygredd, megis braich dŵr tân a matiau draenio a/neu ddargyfeirio dŵr tân

Os ydych yn defnyddio llenni tân rhwng pentyrrau, rhaid iddynt fod o uchdwr, trwch ac adeiladwaith digonol er mwyn atal tân rhag lledu ac er mwyn lleihau gwres rheiddiol.

Gallwch roi deunyddiau llosgadwy mewn cynwysyddion cludo. Dylid pentyrru'r rhain heb fod yn uwch na 2 gynhwysydd, a dylid rhoi clo arnynt.

## Rheoli pentyrrau gwastraff

Rhaid ichi:

- reoli pob pentwr i fod o fewn cyfanswm y meintiau a'r pellteroedd gwahanu gofynnol sydd yn Nhabl 1
- cael cyflenwadau dŵr digonol ar gael bob amser er mwyn diffodd tân
- galluogi mynediad hawdd i gerbydau brys o amgylch yr holl safle
- rheoli pob pentwr o ddeunyddiau sy'n gallu ymlosgi, a dangos rhagofalon ychwanegol addas os ydynt yn cael eu storio am fwy na 3 mis

## Pentyrrau a phellteroedd gwahanu

Rhaid i uchder y pentwr gael ei gymryd fel y mesuriad rhwng sylfaen y pentwr a'r brig. Os yw'r llawr yn anwastad efallai nad dyma'r pwynt uchaf.

Trin 2 neu fwy o bentyrrau fel 1 pentwr os:

- ydynt o fewn ardal sydd heb fod yn fwy na 235m<sup>2</sup> ac nad yw'r maint hiraf (yr hyd neu'r lled) yn fwy na 20m
- nad yw'r bwch rhyngddynt yn bodloni'r pellteroedd gwahanu lleiaf yn Nhabl 1

**Tabl 1: Maint mwyaf pentyrrau a'r pellteroedd gwahanu lleiaf**

Deunydd	Uchder uchaf (m)	Hyd/lled (m)	Cyfaint mwyaf (m <sup>3</sup> )	Cyfanswm ardal (m <sup>2</sup> )	Gwahaniad lleiaf (m)
Papur, cardbord a charpiau	5	20	750	235	6
Plastig, rwber a deunyddiau eraill	5	20	450	235	6
Oergelloedd, cyfrifiaduron a	5	20	300	235	6

chyfarpar trydanol					
Pren wedi'i brosesu, gan gynnwys blawd lli, naddion, sglodion	3	10	150	100	6
RDF a fflwff peiriant darnio	5	20	450	235	6
Gwlân heb ei brosesu	5	20	750	235	6

Ar gyfer grwpiau o 16 pentwr neu fwy, *rhaid* ichi gael bwloch o 20m rhwng y grwpiau.

Rhaid i bentyrrau sy'n cynnwys cymysgedd o ddeunyddiau llosgadwy dalu sylw i gyfran y deunyddiau, y ffurf y caiff y deunyddiau eu storio ynddynt, a nodweddion tebygol unrhyw dân iddo.

### Cau pentyrrau gan ddefnyddio baeau a waliau

Os ydych yn defnyddio baeau neu waliau, rhaid ichi ddangos:

- bod stoc yn cael ei droi'n llawn ac yn aml, a sut caiff hyn ei fonitro a'i gofnodi
- amddiffyniad rhag y gwynt
- sut rydych yn bwriadu gwirio tymheredd a chynnwys lleithder yr holl ddeunyddiau o fewn y bae fel bod holl gyfaint y pentwr yn cael gwiriadau cynrychioliadol
- adeiladwaith y waliau o ran y modd y maent yn cynnig rhwystr thermol ac yn ei gwneud yn bosibl i oeri
- sut caiff capasiti stoc ei reoli
- sut byddwch yn sicrhau bod deunyddiau'n cael eu gwahanu
- sut mae cyfrif uchder y fflam a'r rheiddiad wedi cael ei ystyried wrth atal tân rhag lledu rhwng pentyrrau
- atal ffagl neu ddeunydd ar dân rhag symud y tu hwnt i waliau'r bae
- atal pontio dros neu heibio waliau
- sut bydd lle 'bwrdd rhydd' ar ben neu ar ochrau'r waliau'n cael eu cadw'n bob amser, a hynny'n unol â'r canllawiau diweddaraf sydd ar gael
- pa mor aml y caiff y pentyrrau eu troi, a beth yw'r dull
- sut caiff yr ardal gwarantîn ei defnyddio, a sut caiff deunyddiau eu symud yn ystod digwyddiad

### Troi a monitro pentyrrau

Rhaid troi pentyrrau yn gyson er mwyn sicrhau bod y deunydd yn aros yn oer a bod unrhyw gynhesu lleol yn cael ei wasgaru'n gyflym. Rhaid i'ch staff fod wedi cael eu hyfforddi i ganfod a rheoli manau poeth. Rhaid dweud sut byddwch yn gwneud hyn yn eich cynllun atal tân.

Rhaid dilyn y canllawiau cyfredol er mwyn monitro pentyrrau'n rheolaidd a lleihau cynnydd mewn tymheredd a newidiadau mewn cynnwys lleithder. Rhaid i'r cyfarpar a ddefnyddiwch i ganfod tymheredd a chynnwys lleithder fod yn gallu gweithredu ar unrhyw ddyfnder drwy'r pentwr. Felly, os ydych yn bwriadu cael pentwr sy'n 5m o ddyfnder, rhaid i'ch chwiliedydd fod yn gallu gweithredu hyd at 5m.


Rhaid ichi esbonio pa symbyliadau y byddwch eu defnyddio mewn perthynas â thymheredd a chynnwys lleithder a sut byddwch yn dwysau camau gweithredu mewn perthynas â'r symbyliadau hyn.

## Cynllun y pentyrrau ar eich safle

Pan fyddwch wedi canfod y pellteroedd gwahanu sydd eu hangen rhwng pentyrrau, a lleoliad ffynonellau gwres, adeiladau, ac ardaloedd eraill ar y safle sy'n agored i berygl, gallwch gynllunio'r trefniadau storio.

Rhaid ichi hefyd ystyried y prifwynt, i le bydd dŵr tân yn llifo, a beth yw'r strategaeth diffodd tân a ddefnyddir. Dangosir enghraifft yn ffigur 1.

Ffigur 1: enghraifft o gynllun da i bentyrrau



### Tabl 1

Bydd pentyrrau wedi'u gosod yn lletraws gyferbyn â'i gilydd yn lleihau dwyster y gwres rheiddiedig rhwng y pentyrrau. Gallai hyn leihau lledaeniad tân

Adeilad/ffwrnais/nwy fflamadwy cywasgedig ayyb

Ffordd fynediad

## Natur dymhorol a rheoli pentyrrau

Rhaid ichi brofi bod eich modd o reoli pentyrrau yn hyfyw. Rhaid ichi hefyd brofi bod deunyddiau'n addas a bod y gadwyn gyflenwi a'r allfeydd olaf yn gydnerth. Darparwch asesiad technegol sy'n dangos bod gennych ffydd fod eich cynnig yn hyfyw yn yr amgylchiadau a ragwelir o ran y farchnad.

Os yw'r deunyddiau ar eich safle'n destun amrywiad tymhorol o ran galw a/neu gyflenwad, rhaid ichi ddangos sut rydych yn bwriadu rheoli'r amrywiadau hyn.

Rhaid i'r materion hyn i gyd a'r cynlluniau wrth gefn a ddefnyddiwch i leihau'r materion fod yn eich system reoli a rhaid eu rhoi ar waith cyn i weithrediadau cychwyn ar y safle.

## Rheoli dŵr tân

Bydd y cyfleusterau cynnwys a'r cyfarpar llygredd angenrheidiol yn dibynnu ar faint eich safle, faint o ddeunyddiau rydych yn eu storio a beth yw'r strategaeth diffodd tanau. Gallai dogfen CIRIA ['Containment systems for the prevention of pollution \(C736\)'](#) fod yn gymorth ichi wybod pa gyfleusterau a chyfarpar sydd eu hangen arnoch ar gyfer eich safle.

Os byddwch yn gollwng rhywbeth nad yw'n cael ei reoli i'r amgylchedd dŵr efallai y byddwch yn cyflawni trosedd oni bai:

- fod gennych drwydded i wneud hynny
- fod yr hyn a ollyngir yn bodloni amodau'r drwydded honno

## Cyflenwadau dŵr

Rhaid ichi gael digon o gyflenwadau dŵr ar gael ar eich safle er mwyn rheoli'r digwyddiad senario gwaethaf (e.e. pob pentwr ar y safle ar dân).

Defnyddiwch yr amcangyfrif hwn i gyfrifo cyfaint y dŵr y bydd ei angen arnoch:

Fel arfer, bydd pentwr 300m<sup>3</sup> o ddeunydd llosgadwy angen cyflenwad dŵr sydd o leiaf o 2,000 litr y funud am 3 awr.